| 05) Canran o ymweliadau â rhyngwyneb ein prif wefan yn Gymraeg | 8% | 7% | 8% | 9% | | | ↑ | | |
| 06) Canran yr ymatebion i ymgynghoriadau swyddogol a wnaed yn Gymraeg | 15% | 10% | 9% | 9% | | | → | | |
| 07) Canran y dilynwyr sy'n dilyn ochr Gymraeg prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor | 23% | 23% | 23% | 23% | | | → | | Cynnydd o 2% mewn dilynwyr Facebook a gostyngiad o 1% mewn dilynwyr X |
| 08) Nifer busnesau yn derbyn cefnogaeth fel rhan o raglen ARFOR | 15 | 31 | 30 | 30 | | | → | | |
| 09) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] | 68.46% | | | 66.91% | | | ↓ | 68.46% | |

## 4. Gofal Cymdeithasol a Llesiant

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Targed Ch4 | CAMG Ch4 | Tuedd | 23/24 | Sylwadau Ch4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer yr oedolion sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol | 212 | 226 | 231 | 232 | 224 | G | ↑ | | |
| 02) Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol | 89.36% | 90% | 91.51% | 88.81% | 90% | M | ↓ | 95% | |
| 03) Canran yr oedolion sydd wedi derbyn cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac sydd heb gysylltu â'r gwasanaeth yn ystod y 6 mis dilynol | 94.95% | 92.96% | 91.17% | 86.89% | 85% | G | ↓ | 63% | |
| 04) Nifer y bobl hŷn (65 oed a hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal | 289 | 320 | 291 | 321 | 352 | G | ↑ | | |
| 05) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | 94.30% | 95.20% | 96.40% | 93.70% | 93% | G | ↓ | 98% | |
| 06) Yr amser y mae'r holl blant sy'n dal i fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi'i dreulio ar y gofrestr ar gyfartaledd, fel ac yr oedd pethau ar ddiwedd y chwarter | 142 | 128 | 129 | 140 | 270 | G | ↓ | | |
| 07) Plant a gafodd eu Hail-gofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn 12 mis ar ôl cael eu tynnu oddi ar y gofrestr | 0% | 0% | 0% | 0% | 15% | G | → | | |
| 08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | 7.50% | 10.09% | 13.04% | 14% | 15% | G | ↓ | 11% | |
| 09) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal a oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | 94.12% | 92.13% | 90.72% | 91.11% | 90% | G | ↑ | | |
| 10) Canran y Cynlluniau Llwybr Cychwynnol a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn yr amserlenni | 100% | 100% | 100% | 100% | 85% | G | → | | |
| 11) Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden | 130704 | 252090 | 396113 | 565574 | 555371 | G | ↑ | 515k | |
| 12) Canran y cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | | | | N/A | | | | | Data ddim ar gael oherwydd diffyg sustem TG. Amcangyfrif bod 60% yn cwblhau'r rhaglen. |

## 5. Addysg

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Targed Ch4 | CAMG Ch4 | Tuedd | 23/24 | Sylwadau Ch4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (pob tymor) | 91.98% | 93.13% | 93.06% | 93.50% | 95% | M | ↑ | 93% | |
| 02) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (pob tymor) | 87.10% | 89.23% | 88.28% | 88.3% | 90.00% | M | → | 87% | |
| 03) Canran gadawyr Blwyddyn 11 sydd ddim mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth [NEET] | | | | 1.9% | | | | 4% | |
| 04) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd | | | | 86% | | | | 83% | |
| 05) Nifer yr ysgolion mewn Categori Dilynol / Statudol gan Estyn | 1 | 0 | 0 | 0 | | | → | | |
| 06) Nifer yr ysgolion â statws Eco-ysgol | 29 | 29 | 29 | 29 | | | → | | |
| 07) Môn Actif – Nifer y plant ar gyfartaledd sy'n cael gwersi nofio drwy gydol y flwyddyn | 1847 | 1806 | 1773 | 1747 | 1900 | A | ↓ | | Nifer presennol plant Ynys Môn sydd ar y raglen Nofio Môn yw 1,682, sy'n ostyngiad bach ar berfformiad Ch3 (1695) |
| 08) Nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol | 14 | 4 | 13 | 21 | | | ↑ | | |
| 09) Nifer / cyfran yr ysgolion â chynllun adfer ariannol | 6 | 6 | 6 | 6 | | | → | | |

## 6. Tai

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Targed Ch4 | CAMG Ch4 | Tuedd | 23/24 | Sylwadau Ch4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau atgyweiriadau ymatebol | | 18 | 15 | 15 | 18 | G | → | 19 | |
| 02) Canran y tenantiaid a oedd yn fodlon â'r atgyweiriadau ymatebol | 88% | 88% | 87% | 86% | 85% | G | ↓ | 80% | |
| 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | 26 | 49 | 47 | 54 | 35 | C | → | | Mae eiddo sy'n cael eu dychwelyd yn cael eu huwchraddio i fodloni safonau WHQS2, sy'n cynyddu'r nifer cyfartalog o ddiwrnodau. Mae hyn, ynghyd ag anawsterau wrth recriwtio paentwyr, wedi arwain at gynnydd eto yn Ch4 |
| 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – addasiadau bach a chanolig (<£10k) | 185 | 184 | 190 | 195 | 185 | A | ↓ | | Roedd seibiant ar gymeradwyo prosiectau newydd ar ddechrau Ch4 oherwydd posibilrwydd o wario dros gyllideb. Mae hyn wedi effeithio ar berfformiad DPA (KPI) gan nad oedd contractwyr ar gael i ddechrau ar unwaith pan gafodd prosiectau eu cymeradwyo eto |
| 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - addasiadau mawr (>£10k) | - | 222 | 229 | 229 | 211 | A | ↓ | | Fel yr uchod |
| 06) Nifer y Tai Cyngor a ddatblygwyd o'r newydd a nifer yr hen Dai Cyngor a brynwyd yn ôl i'w gosod fel Tai Cyngor | 22 | 36 | 50 | 59 | 45 | G | ↓ | | |
| 07) Cyfanswm dyledion rhent tenantiaid cyfredol fel canran o gyfanswm y rhent y mae modd ei gasglu drwy lety parhaol | 3.02% | 3.55% | 2.91% | 3.03% | 3.10% | G | ↓ | | |
| 08) Nifer yr eiddo gwag preifat a ddaethpwyd yn ôl i ddefnydd drwy'n hymyraethau Tai Gwag | 16 | 34 | 43 | 63 | 38 | G | ↑ | 71 | Daeth 20 o eiddo ychwanegol yn ôl i'w defnyddio yn ystod Ch4. |
| 09) Canran yr aelwydydd a ataliwyd rhag mynd yn ddigartref | 83% | 90% | 95.35% | 93.75% | 85% | G | ↑ | 97% | |
| 10) Nifer y ceisiadau am gymorth gyda digartrefedd (asesiadau adran 62) | 185 | 294 | 452 | 549 | | | | | |
| 11) Nifer yr Aelwydydd mewn Llety Brys a Dros Dro ar hyn o bryd | 85 | 101 | 100 | 98 | | | | | |

## 7. Economi

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Targed Ch4 | CAMG Ch4 | Tuedd | 23/24 | Sylwadau Ch4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y % grant economaidd a datblygu / adfywio a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd | 38% | 41% | 53% | 73% | | | ↑ | | |
| 02) Canran yr unedau busnes a osodwyd gan y Cyngor | 86% | 90% | 93.8% | 95% | 70% | G | ↑ | | |
| 03) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol | 179 | 190 | 191 | 191 | 210 | A | → | | Ni werthwyd unrhyw gontractau pellach yn ystod Ch4 |
| 04) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | 96.5% | 97.4% | 97.5% | 97.80% | 90% | G | ↑ | 96% | Perfformiad cyson drwy gydol M flwyddyn er gwaethaf cynnydd yn nifer M ceisiadau |
| 05) Canran y ceisiadau gorfodi cynllunio a ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | 96.9% | 91.7% | 92.2% | 92.4% | 80% | G | ↑ | 87% | |
| 06) Apeliadau cynllunio a ganiateir fel canran o'r holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd | 1% | 0.86% | 0.58% | 0.88% | | | ↓ | | |
| 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd | 71% | 83% | 85.3% | 89% | 90% | M | ↑ | | Cynnydd da yn ystod M chwarter, fodd bynnag cafodd M targed ei fethu ychydig |
| 08) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd y safonau hylendid bwyd | 98% | 98% | 98.5% | 98.5% | 95% | G | → | 98% | |

## 8. Newid Hinsawdd

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Targed Ch4 | CAMG Ch4 | Tuedd | 23/24 | Sylwadau Ch4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Cyfanswm yr allyriadau carbon sy'n dod o adeiladu'r cyngor (tC02e) | | | | 4184 | | | | | |
| 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio | 67.52% | 67.46% | 66.05% | 65.07% | 70% | C | ↓ | 65.0% | Ail-ddefnyddiwyd, ailgylchwyd neu gompostiwyd 61.37% o wastraff yn ystod Ch4. Mae hyn yr un fath ag yn 2023/24 ac felly'n dod â chyfanswm blynyddol 2024/25 i 65.07% |
| 03) Canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio o adeiladu'r Cyngor | 48% | 48% | 48% | 47% | | | ↓ | | |
| 04) Canran y strydoedd sy'n lân | 96.6% | 97.5% | 97.90% | 97.80% | 96% | G | ↓ | 97% | |
| 05) Nifer y dyddiad a gymerwyd ar gyfartaledd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | 0.04 | 0.04 | 0.09 | 0.08 | 1 | G | ↓ | 0.13 | |
| 06) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | 1.8% | 1.8% | 2.7% | G | | 2.7% | |
| 07) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | 1.6% | 1.6% | 2.3% | G | | 2.3% | |
| 08) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | 7.3% | 7.3% | 7.5% | G | | 7.5% | |
| 09) Cyfanswm allyriadau carbon fflyd y Cyngor (tC02e inc WTT) | 162 | 320 | 451 | 613 | | | ↓ | | |
| 10) Cyfran y cerbydau carbon isel (trydan) yn fflyd y Cyngor | 12% | 17% | 17% | 17% | | | → | | |
| 11) Nifer y gwefrwyr cerbydau trydan y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt | 49 | 49 | 49 | 49 | | | → | | 49 pwynt gwefru gyda 64 o wefrwyr ar gael |

Tudalen 28

## 9. Iechyd Cyngor Cyfan

| | CAMG | Tuedd | Cyllideb | Canlyniad | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Refeniw) | G | ↑ | £179,739,000 | £176,709,000 | -1.69% |
| 02) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Cyfalaf) | | | £74,408,000 | £64,726,000 | -17.45% |
| 03) Incwm yn erbyn Targedau (ac eithrio grantiau) | G | ↑ | -£12,109,776 | -£15,757,105 | 30.12% |
| 04) Balansau cyffredinol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn | | | | -£13,258,260 | |
| 05) Cost benthyca - % y gwariant refeniw a gyllidwyd ar ei gyfer | G | ↓ | 2.68% | 2.16% | 0.52% |
| 06) Nifer y Gwasanaethau a ragwelir yn gorwario mwy na 5% o'u cyllideb | | ↑ | | 1 | |
| 07) % y Dreth Gyngor a gasglwyd (ar gyfer y 3 mis diwethaf) | M | → | | 97.8% | |
| 08) % y Mân Ddyledion a gasglwyd (ar gyfer y 3 mis diwethaf) | M | ↑ | | 94.5% | |

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Targed Ch4 | CAMG Ch4 | Tuedd Ch | Sylwadau Ch4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 09) Cyfanswm y cwynion a gafodd eu cadarnhau / cadarnhau'n rhannol | 1 | 3 | 4 | 7 | 12 | G | ↓ | 6 Corfforaethol a 1 Gwasanaethau Cymdeithasol |
| 10) Cyfanswm % y cwynion a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | 83% | 83% | 86% | 91% | 80% | G | ↑ | |
| 11) Cyfanswm % y cwynion a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | 100% | 100% | 100% | 100% | 80% | G | → | |
| 12) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser | 83% | 82% | 78% | 83% | 90% | A | ↑ | Gwelliant yn ystod Ch4 gyda 14 o'r 260 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn hwyr |
| 13) Cyfran yr ymholiadau a gafodd eu datrys a'u cau gan Cyswllt Môn (heb eu hanfon ymlaen at Wasanaeth) | 50% | 51% | 48% | 40% | | | ê | |
| 14) Nifer y staff yn yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | 2406 | 2397 | 2388 | 2398 | | | ↑ | |
| 15) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd | 2.09 | 3.93 | 6.53 | 9.11 | 9.25 | G | ↑ | |
| 16) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE | 0.93 | 1.63 | 2.80 | 3.96 | | | → | |
| 17) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE | 1.16 | 2.3 | 3.73 | 5.15 | | | → | |
| 18) Gweithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod Lleol (%) (Trosiant) | | | | 8% | | | ↑ | Trosiant o 8% i gymharu a 9% yn 2023/24 |
| 19) % y swyddi a gafodd eu hysbysebu a'u llenwi ar ôl cael eu hysbysebu unwaith | | 75% | 74% | 70% | | | ↓ | |

## 10. Casgliad ac Argymhellion

10.1 Mae'r perfformiad o 82.5% o'r dangosyddion perfformiad yn well neu o fewn 5% i'w targedau ar gyfer y flwyddyn yn gadarnhaol

10.2 Mae'n dangos bod gwasanaethau'n gweithredu yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion cyffredinol y Cyngor

10.3 **Argymhelliad – bod y Tîm Arweinyddiaeth yn rheoli, ymchwilio a sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ar gyfer y DPA a ganlyn:**

10.3.1 Addysg – 07) Môn Actif – Nifer y plant ar gyfartaledd sy'n cael gwersi nofio drwy gydol y flwyddyn
10.3.2 Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod)
10.3.3 Tai - 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - addasiadau bach a chanolig (<£10k)
10.3.4 Tai - 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - addasiadau mawr (>£10k)
10.3.5 Economi - 03) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol
10.3.6 Newid Hinsawdd - 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio
10.3.7 Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 24/6/2024 |
| **Pwnc / Testun:** | Ddogfen Gyflawni Flynyddol 2025/26 |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | Y Cynghorydd Carwyn E Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | Carys Edwards |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | Gwyndaf Parry<br>01248 752111<br>GwyndafParry@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer ei chyflawni yn ystod 2025/26.

Mae'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn amlinellu rhaglenni gwaith blynyddol y Cyngor sydd wedi'u cynllunio i gyflawni disgwyliadau Cynllun y Cyngor. Mae'n rhoi mwy o fanylion gweithredol yn unol a'r chwech amcan startegol yn erbyn agweddau penodol o'r ddarpariaeth flynyddol.

**B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Dim opsiwn arall wedi'i ystyried, mae hwn yn ddisgwyliad o dan gyfansoddiad y Cyngor

**C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi gan ei fod yn darparu'r manylder ynglyn a sut bydd y Cyngor yn gwireddu disgwyliadau Cynllun y Cyngor a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn yn flaenorol.

**D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

**DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r DGB yn amlinellu'r gwaith y bydd y cyngor yn ei wneud i gyflawni amcanion Cynllun y Cyngor am y 12 mis nesaf, gan gynnwys penderfyniadau fydd yn effeithio ar anghenion tymor hir Ynys Môn. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Nodir y goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn y broses flynyddol o bennu'r gyllideb |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | Bydd amryw o elfennau sydd yn gysylltiedig a gwireddiad amserol y cynllun hwn angen cydweithrediad ag eraill. Caiff hyn ei amlygu wrth i'r cynllun gael ei wireddu dros y cyfnod sydd i ddod. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn cyn mabwysiadu Cynllun y Cyngor 2023-2028 a bydd amryw o'r ffrydiau gwaith yn cael eu ymgynghori arnynt ymhellach yn ystod y cyfnod gweithredu. |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Amherthnasol - bydd Asesiadau Effaith yn cael eu cynnal ar ffrydiau gwaith cysylltiedig a'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol er mwyn asesu effaith unrhyw newidiadau ar gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. |

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif-weithredwr / Tim Arwain (TA) (gorfodol)** | Ystyriwyd y mater hwn gan y TA ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Mnitro (gorfodol)** | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Sylwadau wedi'i adlewyrchu yn yr adroddiad |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 17/6. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dogfen Cyflawni Blynyddol 2025/26 |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| Cynllun y Cyngor 2023-2028 |

# Dogfen Gyflawni Flynyddol 2025/26

**Dyddiad Cyhoeddi:**Mehefin 2025

## Dogfen Gyflawni Flynyddol

Mae'r ddogfen hon yn edrych yn fanwl ar y gwaith fydd y Cyngor yn ymgymryd ag o yn ystod 2025/26 i gyflawni'r dyheadau uchelgeisiol sydd wedi'u gosod dan bob un o'r amcanion strategol yng Nghynllun y Cyngor 2023 - 2028.

## Cynllun y Cyngor 2023-2028 - Amcanion Strategol

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolog i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar bob lefel; darparu fframwaith ar gyfer cynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

'Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu'.

Tudalen 35

### Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu, magu hyder a defnyddio'r iaith.

### Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

### Tai

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn 'gartref'.

### Economi

Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at bod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

## Cynllun y Cyngor 2023-2028 - Gwerthoedd

Mae Cynllun y Cyngor 2023-2028 yn cael ei gefnogi gan werthoedd craidd y sefydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain gweledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

### Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.

### Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.

### Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.


### Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r ynys.

## Y Cylch Strategol

Mae'r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd mewn lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau ac amcanion.

Mae hwn yn gynllun allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac sy'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion strategol a'r weledigaeth.



## Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.:

| Erbyn 2028 byddwn wedi: | Yn 2025/26 byddwn yn: |
|---|---|
| Sicrhau bod ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn cael ei diwygio yn 2026 a'i bod yn ymateb i ganlyniadau'r cyfrifiad diwethaf | • Cynnal adolygiad siopwr cudd o'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yng ngwasanaethau'r cyngor<br>• Hunanasesu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg |
| Diweddaru ein polisi iaith Gymraeg a datblygu polisi newydd ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle | • Gweithredu'r Polisi Iaith Gymraeg a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer 25/26<br>• Profi dealltwriaeth staff o ofynion y safonau a'r polisi iaith Gymraeg |
| Ehangu ein cynnig o hyfforddiant er mwyn creu mwy o gyfleoedd i'n staff, a'n cynghorwyr, partneriaid a thrigolion yr ynys ddatblygu eu sgiliau Cymraeg | • Darparu cyfleoedd i staff ac aelodau etholedig fel y gallent wella eu sgiliau iaith Gymraeg drwy:<br>o Gynnal pump dosbarth iaith Gymraeg<br>o Cynnal ymgyrchoedd, o leiaf unwaith y mis, i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg<br>o Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle<br>• Cefnogi a hwyluso trefniadau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Môn 2026 |

## Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir

| Erbyn 2028 byddwn wedi: | Yn 2025/26 byddwn yn: |
|---|---|
| Adolygu a moderneiddio'r dull o ddarparu gofal a chefnogaeth | • Gweithio gyda'n gilydd i fod yn ynys oed-gyfeillgar drwy weithgareddau ataliol:<br>  o Dod o hyd i leoliad hwylus sy'n cynnig cyfleoedd i asesu, hyrwyddo a datblygu sgiliau byw'n annibynnol.<br>• Trawsnewid gwasanaethau dydd drwy barhau i weithio gyda phartneriaid i gynnal gweithgareddau dydd mewn lleoliadau cymunedol yn ardal Caergybi, ac ehangu'r model yng nghanol Ynys Môn ac yn y dwyrain.<br><br>• Gweithio i gynnal y niferoedd isel bobl ifanc a phobl sy'n gadael gofal sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET), a gweithio i leihau niferoedd eto lle bynnag y bo'n bosibl<br>• Croesawu dros 500,000 o ymweliadau i ganolfannau Môn Actif<br>• Buddsoddi £1M yng nghyfleusterau Môn Actif:<br>  o Plas Arthur; gwella a moderneiddio ar draws yr adeilad<br>  o Caergybi; offer ffitrwydd newydd<br>  o Amlwch; ystafelloedd newid newydd<br>  o Archwilio bob pwll nofio<br>• Sicrhau bod cronfa ddata Gofal Cymdeithasol modern (Cysylltu Gofal) ar waith yn lle WCCIS. Yn 25/26, byddwn yn ceisio sicrhau bod data a gwybodaeth yn cael eu trosglwyddo'n llwyddiannus. |
| Gwella ac ymestyn y ddarpariaeth tai a chymorth | • Moderneiddio a gwneud y gorau o 'Dai â Chymorth' drwy greu capasiti ychwanegol o 12 ac unedau o safon, yn cynnwys:<br>  o Hen safle'r farchnad, Y Fali (4 uned)<br>  o Pencoed, Rhostrehwfa (4 uned)<br>  o Maes y Ffridd, Gwalchmai (4 uned)<br>  o Caergybi a Llangefni<br>• Cwblhau dau ddatblygiad tai i roi cartref newydd i oddeutu 8 o bobl yn Y Fali a Llangefni |

| | |
|---|---|
| | • Adnabod rhaglen ychwanegol o 3 eiddo addas i fodloni gofynion oes defnyddwyr gwasanaeth |
| Ehangu cyfleoedd i bobl dderbyn gofal yn agosach at eu cymunedau lleol | • Cynyddu cyfranogiad mewn hybiau cymunedol integredig, cynnal lleiafswm o 6 fforwm cymuned a gwella hygyrchedd yr hybiau, gan ddarparu gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol yn rhai o'r hybiau hynny<br>• Gweithio gyda phartneriaid allweddol a sefydliadau cymunedol i ddatblygu cyfleoedd ataliol er mwyn gwella iechyd a llesiant unigolion, gan gynnwys:<br>o Agor Hwb Cymunedol Canolfan Glanhwfa - i gynnal Canolfan Dementia Ynys Môn erbyn Hydref 2025<br>o Ehangu'r rhaglen Nifty60s i chwe cymuned arall erbyn Hydref 2025<br>o Gweithio gyda Chynghrair Seiriol i beilota prosiect trafnidiaeth gymunedol ym mis Gorffennaf 2025<br>• Helpu pobl unig ac ynysig drwy drefnu 11 digwyddiad sy'n pontio cenedlaethau:<br>o 2 ddigwyddiad Sporting Memories erbyn Rhagfyr 2025<br>o 4 gêm Boccia rhwng cenedlaethau erbyn Rhagfyr 2025<br>o 5 gweithgaredd Dawns i Bawb rhwng cenedlaethau yn ein cartrefi gofal erbyn Mawrth 2026<br>• 500 yn cymryd rhan yn y cynllun Dementia Actif |
| Datblygu'r ddarpariaeth fewnol ar gyfer plant mewn gofal, Cartrefi Clyd a gofalwyr maeth | • Dod o hyd i eiddo ar gyfer dau Cartref Clyd pellach ar yr ynys<br>• Ceisio cael saith lleoliad gofal maeth ychwanegol (gwely) yn ystod 25/26<br>• Ehangu a gwella darpariaeth gofal plant:<br>o Gwella cymhwystra plant<br>o Cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar y cynnig gofal plant<br>o Gwella ansawdd lleoliadau gofal plant<br>o Mesur boddhad rhieni |

## Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol:

| Erbyn 2028 byddwn wedi: | Yn 2025/26 byddwn yn: |
|---|---|
| Sicrhau bod y strategaeth foderneiddio cymunedau dysgu yn creu ysgolion effeithiol gydag arweinyddiaeth gref ac amgylchfyd addysgu pwrpasol | • Ymgynghori ar gynnig ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi newydd yn ystod Mehefin a Gorffennaf Paratoi a chyflwyno achos busnes amlinellol strategol i Lywodraeth Cymru yn Ch3<br>• Paratoi a gweithredu cynllun strategol newydd i ddatblygu perthynas waith well rhwng darparwyr addysg ôl-16 presennol |
| Datblygu'r Gymraeg ar draws pob lleoliad addysgol trwy wireddu nodau, amcanion a deilliannau a osodwyd yng 'Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' | • Trochi 96 o ddisgyblion heb lawer neu heb ddim sgiliau Cymraeg drwy'r canolfannau iaith<br>• Datblygu cynllun gwella iaith Gymraeg 5 mlynedd yn Ysgol Llanfawr, Santes Fair ac Ysgol Uwchradd Caergybi<br>• Sicrhau bod 100% o ddysgwyr blwyddyn 6 yn derbyn asesiad cyfranogiad a medusrwydd iaith Gymraeg |
| Sicrhau'r profiadau a'r cynnydd gorau bosibl i blant a phobl ifanc drwy ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru ym mhob cymuned ledled yr ynys | • Gweithredu cynllun strategol a gweithio gydag ysgolion i wella presenoldeb mewn ysgolion ym Môn i 95%<br>• Sicrhau bod y Cwricwlwm i Gymru a phrosesau asesu a phontio ar waith ym mhob ysgol<br>• Sicrhau bod pob ardal dalgylch yn gweithio gyda'i gilydd, o ysgol i ysgol, i gefnogi plant a phobl ifanc ddatblygu eu sgiliau a'u sgiliau digidol<br>• Gweithio at gwblhau hyfforddiant diogelu Grŵp A, B a C 100% ar gyfer staff sydd angen y lefel hyfforddiant perthnasol |

| | |
|---|---|
| | • Gweithio at ddod yn Ynys Wybodus am Drawma - cefnogi dwy ysgol arall i gyflawni achrediad TIS<br>• Adolygu prosesau mapiau darparu ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chynhwysiant mewn ysgolion, sy’n hwyluso’r gwaith o fonitro, mesur addasrwydd, ansawdd a chanlyniadau dysgwyr gydag ADY |
| Cynyddu cyfleoedd addysgol ar gyfer oedolion er mwyn i drigolion Ynys Môn ddatblygu’n bersonol trwy gydol eu bywyd | • Sefydlu rhaglen o weithgareddau i’w chynnal yn Creu / Caffi Ffiws yn Neuadd y Farchnad, Caergybi Gweithio mewn partneriaeth â Menter Môn a Mencap Môn<br><br>• Cynorthwyo plant a’u teuluoedd i fanteisio ar weithgareddau addysgol a Swyddogion Ysgolion Cymunedol sy’n gweithio mewn partneriaeth i gynorthwyo plant a’u teuluoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol a chymuned y tu allan i oriau ysgol traddodiadol er mwyn ymgysylltu teuluoedd gydag ysgolion 50% o ysgolion yn cynnig mannau cymunedol<br><br>• Cynllun Cwrs Dysgu Gydol Oes wedi’i weithredu’n llawn drwy bartneriaeth gyda Grŵp Llandrillo Menai |

# Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref:

| Erbyn 2028 byddwn wedi: | Yn 2025/26 byddwn yn: |
|---|---|
| Mynd i'r afael â'r agenda effeithlonrwydd ynni / tlodi tanwydd gan weithio tuag at wireddu Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023 | • Erbyn 31 Mawrth 2026, byddwn yn cynyddu nifer yr eiddo sy'n cydymffurfio gyda tharged ynni SAP 75 SATC 2023 o 30% i 40%; cynnydd targed o 400 eiddo.<br>• Cynllun gweithredu tlodi Gogledd Ynys Môn - dull Cyngor cyfan at wella ffactorau economaidd-gymdeithasol.<br>• Erbyn 31 Mawrth 2026, bydd holl eiddo'r Cyngor gyda Llwybr Ynni Targed |
| Agor trydydd cynllun tai gofal ychwanegol a gyda chynlluniau am y pedwerydd | • Sicrhau cyllid a chaniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad Gofal Ychwanegol yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy |
| Cynyddu'r dewis a'r nifer o dai sydd ar gael i drigolion yr ynys gan hefyd gynorthwyo aelwydydd i allu prynu eu cartrefi cyntaf | • Adolygu'r Polisi Cyffredin ar Osod Tai (PCOT) i ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o'r PCOT cyfredol ynghyd â newidiadau deddfwriaethol Lansio PCOT newydd yn 2025<br>• Datblygu 45 tŷ newydd<br>• Hwyluso'r gwaith o adnewyddu 60 tŷ gwag<br>• Cynorthwyo hyd at 6 prynwr tro cyntaf i fynd ar y farchnad dai |
| Cynnal asesiad anghenion marchnad tai gyda phrosbectws tai blynyddol er mwyn adrodd ar gynnydd mewn cyflenwad o dai fforddiadwy | • Cyflawni cynllun gweithredu trosi eiddo gwag 31 Mawrth 2026 |
| Cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid a dyrannu adnoddau er mwyn cynnwys llais ein tenantiaid o fewn ein gwasanaethau | • Cyflawni ein cynllun Profiad Cwsmer - cynnydd o 10% fesul mis mewn cysylltiadau CRM gan denantiaid<br>• Adolygu ein dull adroddiad ar Reoli Perfformiad i sicrhau y dilynir dull sy'n cael ei arwain gan ddata, a bod hynny'n gwella perfformiad gan roi pwyslais ar feysydd nad ydynt yn perfformio cystal<br>• Digideiddio: Teleofal erbyn Medi 2025 |

## Economi

Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys:

| Erbyn 2028 byddwn wedi: | Yn 2025/26 byddwn yn: |
| --- | --- |
| Cefnogi cynlluniau cynhyrchu ynni carbon isel | • Gweithio gyda phartneriaid i wireddu prosiect niwclear newydd posibl yn Wylfa mewn ffordd sy'n lleihau effaith a sicrhau'r buddion economaidd-gymdeithasol gorau i bobl leol<br>• Darparu cymorth a chyngor i Menter Môn ar ddatblygu Hwb yng Nghaergybi<br>• Dylanwadu ar Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill a chydweithio â hwy ar ddatblygiadau ynni ar raddfa fawr<br>• Gweithio gyda datblygwr Fferm Solar Maen Hir a rhanddeiliaid eraill yn ystod y broses DCO (gan gynnwys bod yn bresennol mewn gwrandawiadau cyhoeddus, a pharatoi ar eu cyfer gan sicrhau yr ymdrinnir â'r ffeithiau a'r buddion) |
| Cydweithio i wireddu amcanion economi cylchol | • Ymestyn y trefniadau i gasglu eitemau y gellir eu hailddefnyddio (yn hytrach na'u hailgylchu) yn cynnwys creu swydd benodol i gasglu eitemau i'w hailddefnyddio ym Mhenhesgyn |
| Datblygu unedau busnes newydd i gynorthwyo tyfiant a datblygiad busnesau lleol | • Sicrhau cyllid cyfalaf i godi 10 uned busnesu newydd yn Amlwch<br>• Sicrhau cyllid cyfalaf i ailddatblygu'r adeilad Terfynfa Forol yn Amlwch<br>• Parhau i wneud cynnydd gyda Chynllun Adfywio Economaidd Gogledd Môn drwy:<br>o Sicrhau cyllid cyfalaf er mwyn adeiladu unedau busnesu newydd ac ailddatblygu adeilad y Derfynfa Forol; sicrhau cyllid grant ychwanegol i gefnogi gweithgareddau datblygu prosiect ac ymyraethau eraill;<br>o Gweithio ac ymwneud â'r sector preifat i ddenu buddsoddiad mewnol;<br>o Targedu buddsoddiad ac ymdrechion adfywio yn y Stryd Fawr;<br>o Cefnogi perchnogion safleoedd yn eu hymdrechion i fynd i'r afael â safleoedd tir llwyd a safleoedd sy'n peri pryder |

| | |
|---|---|
| | • Goruchwylio'r gwaith o ddarparu Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn<br>• Parhau i ddyrannu grantiau ac arwain ar ymyraethau canol trefi, a dyrannu cyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Bro a menter Trawsnewid Tref sy'n cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru |
| Manteisio ar fuddsoddiad ychwanegol er budd yr economi leol | • Cydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i symud ymlaen, sicrhau a sefydlu Rhaglen Porthladd Rhydd llwyddiannus yn Ynys Môn yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru a'r DU, a sefydlu trefniadau llywodraethu grymus<br><br>• Sicrhau cyllid allanol i fynd i'r afael ag anghenion yr Ynys a chyfleoedd economaidd ar Ynys Môn e.e. y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro - cynnal agwedd fasnachol mewn perthynas â rheoli Canolfannau Hamdden |
| Tyfu a hyrwyddo'r economi ymwelwyr mewn ffordd barchus a chynaliadwy er mwyn sicrhau buddion ar gyfer ein cymunedau a'n hymwelwyr | • Darparu'r cynllun gweithredu Tirweddau Dynodedig i sicrhau bod blaenoriaethau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer natur a lliniaru newid hinsawdd yn cael eu gwireddu<br>• Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu rhaglenni plannu coed a gwaith dalgylch afon i helpu i wella ansawdd dŵr<br>• Cynnig mwy o gyfleoedd i ffermwyr yn y Tirweddau Dynodedig a'r llain glustogi i wella cynefinoedd<br>• Gweithio gyda ffermwyr i ddarparu model ffermio cynaliadwy, drwy arbrawf Ffermio Bro y Cynllun Ffermio Cynaliadwy<br><br>• Darparu amrywiaeth o weithgareddau i warchod a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE<br>• Rheoli Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd (DMP) (2023-2028):<br>• Sefydlu Partneriaeth Cyrchfan Newydd<br>• Darparu prosiectau allweddol i wella seilwaith a phrofiad ymwelwyr gan leihau'r effaith a phwysau negyddol Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i wella gweithgareddau i ymwelwyr ar fordeithiau sy'n cyrraedd Caergybi<br>• Parhau i adolygu cynigion sy'n ymwneud â chyflwyno Ardoll Ymwelwyr er mwyn deall y cyfleoedd a'r problemau cysylltiedig ar yr Ynys |

| | |
|---|---|
| | • Canolbwyntio ar wella'r Llwybr Arfordirol drwy ddefnyddio ffynonellau ariannu allanol, a chysylltu'r gwelliannau hyn gyda phrosiectau gwella natur er mwyn cyfoethogi profiadau'r rheiny sy'n defnyddio'r llwybr arfordirol<br>o Dod o hyd i safleoedd ar gyfer gwelliannau sylweddol, yn dilyn arolwg cyflawni ar gyfleoedd gwella cynefinoedd a,<br>o Defnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredinol i gynyddu cyllid cyfredol ar gyfer y Llwybr Arfordirol i wella'r llwybr |
| Ailddatblygu safleoedd diwydiannol a thir llwyd nad ydynt yn cael eu defnyddio | • Cefnogi perchnogion tir i ailddatblygu safleoedd diwydiannol, gan gynnwys: hen safle Anglesey Aluminium, safle Two Sisters, Rhosgoch, Octel (Amlwch), hen safle Peboc, Llangefni a hen safle diwydiannol Lairds ym Miwmares. |

## Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at bod yn sefydliad sero net erbyn 2030:

| Erbyn 2028 byddwn wedi: | Yn 2025/26 byddwn yn: |
|---|---|
| Lleihau ein hallyriadau carbon uniongyrchol er mwyn sicrhau bod y targed net sero erbyn 2030 o fewn cyrraedd | • Cyhoeddi Cynllun Strategol Sero Net 2025 - 2030 (ystyried 18 argymhelliad o adolygiad sero net CLILC<br>• Sefydlu grŵp bioamrywiaeth i symud dull rheoli tir y Cygnor yn ei flaen<br>• Gyrru'r Cynllun Trawsnewid Fflyd yn ei flaen drwy gynyddu nifer y cerbydau carbon isel (cyllideb o 48K) (yn ddibynnol ar gyllid cyfalaf a grant), a:<br>o Edrych ar arbrofi â chynllun gwefru gartref ar gyfer fflyd cerbydau trydan Cyngor<br>o Cwblhau'r datblygiad pyrth ceir solar yn Llangefni a'i gomisiynu<br>• Gosod systemau carbon isel yn 24 adeilad y Cyngor |
| Cynyddu cyfraddau ailgylchu | • Gweithio tuag at gyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru sef ailgylchu 70% o wastraff o gartrefi ac adeiladau'r Cyngor<br>• Cynyddu cyfraddau ailgylchu ar gyfer casglu gwastraff o adeiladau'r Cyngor i 60%<br>• Lleihau digwyddiadau tipio o 10% (o gymharu â ffigyrau 24/25) |
| Sicrhau bod gwasanaethau'n ystyried newid hinsawdd a bioamrywiaeth fel materion allweddol wrth wneud penderfyniadau | • Rhoi cynlluniau rheoli llifogydd ar waith ledled yr ynys (yn ddibynnol ar sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru):<br>o Porthaethwy<br>o Llanfairpwll<br>o Lôn Trearddur<br>o Bodffordd<br>o Porth Diana |

Tudalen 47

| | |
|---|---|
| | • Gweithio ar ein trefniadau SAB yn fewnol - datblygu a gweithredu trefniadau newydd ar gyfer SAB; i gynnwys cynhyrchu incwm yn ystod ymgynghori cyn cyflwyno ceisiadau |
| Creu opsiynau teithio carbon isel eang i drigolion ac ymwelwyr â'r ynys | • Rhoi cynlluniau teithio lleol ar waith rhwng Malltraeth a Niwbwrch<br><br>• Treialu cynllun trafnidiaeth gymunedol i gysylltu ardaloedd gwledig gyda phrif lwybrau trafnidiaeth<br><br>• Gweithredu newidiadau i'r cyfyngiad cyflymder 20mya mewn 27 lleoliad<br><br>• Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn 14 lleoliad ledled yr ynys (yn ddibynnol ar gyllid allanol a phenodi cyflenwr addas) |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **24 MEHEFIN 2025** |
| **Pwnc:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, ALLDRO 2024/25** |
| **Deilydd Portffolio:** | **ROBIN WILLIAMS - DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID A THAI** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **BETHAN H OWEN - RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG**<br>01248 752663<br>BethanOwen2@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**Argymhellion:**

**(i)** Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B a C mewn perthynas ag alldro ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2024/25;
**(ii)** Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2024/25, y manylir arnynt yn Atodiad CH;
**(iii)** Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2024/25 yn Atodiadau D a DD;
**(iv)** Nodi bod amcangyfrif o falansau cyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2025 yn £18.166m.

**Rheswm**

Ar 7 Mawrth 2024, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2024/25 gyda gwariant net y gwasanaethau o £184.164m i'w cyllido o incwm y Dreth Gyngor, trethi annomestig a grantiau cyffredinol, yn ogystal â £4.425m o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £3.109m ar gyfer eitemau cyffredinol ac eitemau na chynlluniwyd ar eu cyfer. Gosodwyd cyllideb o £2.893m ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor, sef cynnydd o £0.943m, a'r rheswm pennaf am y cynnydd hwn oedd bod y premiwm ar ail gartrefi wedi codi o 75% i 100%. Gosodwyd cyllideb gytbwys gyda'r cynnydd o 9.50% y cytunwyd arno yn y Dreth Gyngor.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 4, 31 Mawrth 2025. Cyflwynir adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith ar ôl cwblhau'r Datganiad Cyfrifon drafft.

Y sefyllfa gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2024/25, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw tanwariant o £3.873m. Mae hyn yn 2.15% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2024/25. Mae'r rhesymau dros y sefyllfa ariannol yn cael eu nodi yn yr adroddiad ynghlwm.

Mae'r alldro drafft yn sylweddol well na'r ffigwr a ragwelwyd ar ddiwedd y trydydd chwarter, ac mae'r adroddiad yn nodi'r rhesymau dros y newid. Mae'r tanwariant a nodir yn yr adroddiad, a'i effaith ar falansau cyffredinol y Cyngor, yn cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor a bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd iddo wrth ystyried cyllideb refeniw 2026/27.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol - Adroddiad monitro yw hwn ac nid yw'n cynnwys opsiynau i'w hystyried.

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae monitro cyllideb y Cyngor yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

## CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi.

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? | | |
|---|---|---|
| Ydi, ond mae unrhyw newidiadau o gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi yn yr adroddiad. | | |

| **Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio, gydag adroddiadau eraill, i lunio'r strategaeth ariannol tymor canolig a'r gyllideb flynyddol. Bydd yr effaith ar anghenion hir dymor yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol. |
| **2** | A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| **3** | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy. | Amherthnasol |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2024/25 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| **E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Mae unrhyw sylwadau gan y Prif Weithredwr wedi cael eu hystyried ac addaswyd yr adroddiad drafft ble'r oedd hynny'n addas. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro wedi derbyn diweddariad ar y sefyllfa ariannol ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Sgriwtini** | Bydd y Panel Sgriwtini Cyllid yn adolygu'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 4 yn ei gyfarfod ar 10 Gorffennaf 2025. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

| F - Atodiadau: |
|---|
| • Atodiad A - Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2024/25<br>• Atodiad B - Tabl Alldro Dros Dro 2024/25<br>• Atodiad C - Dadansoddiad o'r Amrywiant a Ragwelir fesul Gwasanaeth a'r Rheswm<br>• Atodiad CH - Crynodeb o sefyllfa Cyllidebau Wrth Gefn ar gyfer 2024/25<br>• Atodiad D - Gwybodaeth ynglŷn â monitro Staff Asiantaeth 2024/25<br>• Atodiad DD - Gwybodaeth ynglŷn â monitro Ymgynghorwyr 2024/25 |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| Cyllideb Refeniw 2024/25 (fel y'i hargymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 29 Chwefror 2024 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 7 Mawrth 2024). |

# ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - ALLDRO HEB EI ARCHWILIO 2024/25

## 1. Y GYLLIDEB REFENIW A GYMERADWYWYD AR GYFER 2024/25

**1.1** Cymeradwyodd y Cyngor gyllideb refeniw net ar gyfer 2024/25 fel a ganlyn:-

**1.2**

**Tabl 1**
**Cyllideb a Chyllid a Gymeradwywyd ar gyfer 2024/25**

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm Gwariant Refeniw wedi ei Gymeradwyo | 184,164 | |
| Diwgiadau I'r Gyllideb ers Cymeradwyaeth | | |
| Defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor | (4,425) | |
| Cyllideb Gymeradwy gyfredol ar gyfer 2024/25 (Net o Gronfeydd wrth Gefn) | | 179,739 |
| | | |
| **Cylliidir gan** | | |
| Cyllid Allanol Cyfun | 127,586 | |
| Y Dreth Gyngor Safonol a Gidwyd | 48,387 | |
| Premiwm y Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi a Chartrefi Gwag | 3,766 | |
| **Cyfanswm Cyllid 2024/25** | | **179,739** |

## 2. ALLDRO Y GYLLIDEB AR GYFER 2024/25

**2.1** Mae'r alldro'n cael ei ddangos yn Nhabl 2, isod:-

**Tabl 2**
**Crynodeb o'r Alldro Ariannol**

| | 2024/25 Cyllideb | Alldro | % Amrywiant | Ch3 Rhagolwg | Symudiad |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | % | (Tan) / Gorwariant £'000 | £'000 |
| Cyllidebau Gwasanaeth | 166,701 | -1,949 | -1.17% | 1,161 | -3,110 |
| Cyllidebau Corfforaethol | 17,463 | -963 | -5.51% | -392 | -571 |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol | -4,425 | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| **Gwariant Refeniw Net** | **179,739** | **-2,912** | **-1.62%** | **769** | **-3,681** |
| Cyllid Allanol Cyfun | -127,586 | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Y Dreth Gyngor Safonol | -48,387 | 393 | -0.81% | -432 | 825 |
| Premiwm y Dreth Gyngor | -3,766 | -1,354 | 35.95% | -396 | -958 |
| **Cyllid** | **-179,739** | **-961** | **0.53%** | **-828** | **-133** |
| **Rhagolwg Net (Tan) / Gorwariant** | **0** | **-3,873** | **2.15%** | **-59** | **-3,814** |

**2.2** Mae'r alldro ar gyfer balansau Cyffredinol y Cyngor i'w weld yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Balansau Cyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2025**

| Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith | Swm £'m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | 15,607 | |
| Defnyddwyd ar gyfer Cyllideb 2024/25 | -4,425 | |
| Digwyddiad Iechyd Anifeiliad | -100 | Cymeradwywyd 22/4/24 gan yr Arweinydd |
| Tŷ Churchill, Caergybi | -500 | Cymeradwywyd gan y Cyngor 6/11/24 |
| Grant tuag at Pensiynau Athrawon a Gwasanaeth Tân | 1,386 | I gwrdd â chyfraniadau cyflogwr ychwanegol |
| Grant Cefnogi Pwysau Cyflogau | 1,196 | I gwrdd â chostau ychwanegol dyfarniad tâl NJC |
| Grant Cefnogi Pwysau | 1,035 | I gwrdd â phwysau cyllidebol ychwanegol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd |
| Troglwyddo o Gronfeydd wrth gefn Clustnodedig | 94 | Cronfa wrth gefn atgyweiriadau a chynnal a chadw ysgolion uwchradd - heb ei ddefnyddio. Bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith yng Ngorffennaf 2025 |
| Alldro heb ei Archwilio | 3,873 | |
| **Balans Diwygiedig Cronfa Gyffredinol y Cyngor** | **18,166** | |

**2.2** Derbyniwyd cyllid ychwanegol yn ystod y chwarter ar gyfer y cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr tuag at bensiynau athrawon yn 2024/25, yn ogystal â phwysau tâl. Roedd y ffigyrau hyn wedi eu cynnwys yn y cyllidebau pan osodwyd y gyllideb, felly, cawsant eu hychwanegu at lefel y balansau cyffredinol.

**2.3** Ar alldro 2024/25, roedd cyfanswm o £18.166m o gyllid ar gael.

## 3. PERFFORMIAD ARIANNOL FESUL GWASANAETH

**3.1** Mae'r sefyllfa gyfun gyffredinol a ragwelir ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor yn dangos alldro a ragwelir o £1,949k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gwelir yn Nhabl 4, isod, ddadansoddiad fesul Gwasanaeth ac mae dadansoddiad manylach wedi'i gynnwys yn Atodiad B:-

**Tabl 4**
**Dadansoddiad o'r Sefyllfa a Ragwelir ar gyfer y Gyllideb, fesul Gwasanaeth**

| | (Tan) / Gorwariant £'000 | % |
|---|---|---|
| Addysg Ganolog | (191) | (3.51) |
| Gwasanaethau Oedolion | (936) | (2.40) |
| Gwasanaethau Plant | 1,948 | 13.50 |
| Gwastraff | (101) | (1.00) |
| Priffyrdd | (438) | (5.33) |
| Eiddo | (172) | (8.08) |
| Datblygu Economaidd | (553) | (17.55) |
| Adnoddau Dynol | (145) | (7.60) |
| TGCh | (901) | (18.07) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | (107) | (3.65) |
| Corfforaethol a Democrataidd | (230) | (16.13) |
| Gwasanaethau Arall (Amrywiant llai na £100k) | (123) | |
| **Cyfanswm Amrywiant Gwasanaethau** | **(1,949)** | **(1.17)** |

**3.2** Mae'r prif resymau am y gwahaniaethau'n cael eu crynhoi yn Nhabl 5, isod, ac mae dadansoddiad mwy manwl fesul Gwasanaeth ac Is-wasanaeth wedi'i gynnwys yn Atodiad C:-

**Tabl 5**
**Dadansoddiad o'r Amrywiant a Ragwelir yn ôl Rheswm**

| | Amrywiant a Ragwelir £'000 | Amrywiant a Ragwelir yn Chw 3 £'000 | Symudiad £'000 |
|---|---|---|---|
| Amrywiant mewn costau o ganlyniad i newid yn y galw am wasanaethau | 3,869 | 4,515 | (646) |
| Amrywiant mewn costau staffio sy'n codi o swyddi gweigion, net o gostau staff dros dro ychwanegol a staff asiantaeth | (2,001) | (1,792) | (209) |
| Newidiadau mewn prisiau contractau na wnaed darpariaeth ar eu cyfer yn y gyllideb a gymeradwywyd | (4) | 302 | (306) |
| Newidiadau mewn cyllid grant sy'n cynyddu neu'n lleihau'r gofyn am gyllid o'r gyllideb graidd | (951) | (206) | (745) |
| Incwm o ffioedd a thaliadau sy'n (uwch) / is na'r targed incwm | (2,819) | (1,941) | (878) |
| Amrywiant mewn costau sy'n gysylltiedig ag adeiladau | (183) | (238) | 55 |
| Amrywiant mewn costau sy'n gysylltiedig â chyflogi ymgynghorwyr allanol | 105 | 107 | (2) |
| Trosglwyddo cyllid i / (o) gronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol | 57 | (228) | 285 |
| Camgymeriadau yn y broses gosod cyllideb y gellir eu hadnabod yn rhwydd | (138) | 4 | (142) |
| Rhesymau amrywiol | 113 | 638 | (525) |
| **CYFANSWM YR AMRYWIANT A RAGWELIR** | **(1,949)** | **1,161** | **(3,110)** |

**3.2** Mae'r tabl uchod yn dangos mai cynnydd yn y galw am wasanaethau sy'n parhau i greu'r prif bwysau ar gyllideb y Cyngor, ac mae'n gyfrifol am werth £3,869m o bwysau ychwanegol ar y gyllideb. Gwasanaethau Plant yw'r prif faes sy'n peri pryder, a gwelwyd cynnydd yn nifer y plant sy'n gorfod cael eu lleoli gyda darparwyr all-sirol a chynnydd yng nghost pob lleoliad.

**3.3** Mae'r sefyllfa yn y Gwasanaethau Oedolion wedi newid yn sylweddol, ac mae'r gyllideb yn ddigonol i gwrdd â'r galw ar hyn o bryd. Mae gwahaniaeth o £810k rhwng y rhagolwg a'r alldro, ac mae'r adran yn adrodd tanwariant o £936k ar gyfer y flwyddyn. Mae cynnydd yn lefel y cyfraniadau gan gleientiaid, derbyn incwm ychwanegol a chyfraniadau yn dilyn asesiadau E33 wedi cyfrannu at hyn. Fodd bynnag, roedd y gwasanaeth wedi derbyn incwm grant ychwanegol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol a defnyddiwyd y cyllid yn rhannol yn erbyn y gyllideb graidd. Mae nifer o swyddi gwag o fewn yr adran hefyd. Oherwydd natur y gwasanaeth, mae'n anodd llunio rhagolygon cywir oherwydd gall niferoedd cleientiaid newid o un diwrnod i'r llall ac mae pecynnau gofal yn cyd-fynd ag anghenion unigolion, gyda rhai ohonynt yn gostus.

**3.4** Mae'r sefyllfa ariannol hefyd wedi gwella oherwydd swyddi gweigion, ac mae tanwariant o £2.001m ar gyflogau, heb gynnwys unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o gyflogi staff dros dro a staff asiantaeth. Er hynny, mae problemau recriwtio yng nghartrefi gofal preswyl y Cyngor ac o fewn y Gwasanaethau Cyfreithiol yn golygu bod costau staff asiantaeth yn uwch na'r gyllideb staffio sydd ar gael yn y gwasanaethau hyn. Mae paragraff 7 ac Atodiad D yn cynnwys rhagor o wybodaeth am gostau asiantaeth. Mae problemau recriwtio yn y gwasanaeth TGCh hefyd, gan olygu bod tanwariant o £522k ar staffio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**3.5** Mae buddion y contract cyfleustodau newydd a sefydlwyd yn ystod y flwyddyn ariannol i'w gweld ym mhob gwasanaeth. Er hynny, mae'r Gwasanaeth Hamdden yn parhau i elwa ar y cytundeb ac mae tanwariant ar gostau ynni. Roedd tanwariant o £183k ar gostau'n gysylltiedig ag adeiladu ar draws yr holl wasanaethau yn ystod y flwyddyn.

**3.6** Mae'n anodd rhagweld incwm a gynhyrchir trwy ffioedd a chostau, ond mae'r agweddau o wasanaethau sy'n creu incwm wedi gweld cynnydd yn y galw gan arwain at gynnydd mewn refeniw. Roedd yr incwm cyffredinol £2.819m yn uwch na'r gyllideb, sef £900k yn fwy na'r rhagolwg. Lefelau incwm yn y gwasanaethau Hamdden, Gwastraff a Phriffyrdd welodd y cynnydd mwyaf yn erbyn eu targedau.

**3.7** Mae'r alldro terfynol yn dangos bod y tanwariant ar gyllidebau gwasanaeth £3.110m yn uwch na'r rhagolwg ar ddiwedd chwarter 3. Y rhesymau am y newid yn y sefyllfa derfynol oedd llai o alw am wasanaethau, yn enwedig yn y Gwasanaethau Oedolion a Digartrefedd, gan arwain at gynnydd o £646k yn y tanwariant, swyddi'n wag yn hirach na'r disgwyl, £209k, derbyniwyd cyllid grant ychwanegol yn ystod y chwarter olaf, £743k, ac roedd derbyniadau incwm yn uwch yn y rhan fwyaf o wasanaethau yn ystod y chwarter olaf, ond yn fwyaf nodedig yn y Gwasanaethau Priffyrdd, Cynllunio a Gwasanaethau Oedolion, gan arwain at gynnydd o £878k yn y tanwariant.

## 4 PERFFORMIAD ARIANNOL CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL

**4.1** Dangosir yr alldro ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol yn Nhabl 6 isod:-

**Tabl 6**
**Y Sefyllfa Ariannol a Ragwelir ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol 2024/25**

| | 2024/25 Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | % Amrywiant % | Rheswm am yr Amrywiant |
|---|---|---|---|---|
| Ardollau | 4,931 | - | 0.00 | |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 105 | 50 | 47.62 | |
| Cyllido Cyfalaf | 5,753 | (1,162) | (20.20) | Llai o fenthyca a dychweliadau uwch ar fuddsoddiadau |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 7,392 | (216) | (2.92) | Llwyth achosion llai na'r disgwyl |
| Cyfraniad gwasanaethau Cefnogaeth gan CRT | (800) | 55 | (6.88) | |
| Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer (Yswiriant, Costau Cyfalaf Pensiynau a Darpariaeth Drwg Ddyledion | - | 392 | | |
| Cronfeydd wrth gefn Cyffredinol & Eraill | 82 | (82) | (100.00) | |
| Defnydd o'r Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol | (4,425) | - | | |
| **CYFANSWM** | **13,038** | **(963)** | **(7.39)** | |

**4.2** Mae'r prif wahaniaeth yn ymwneud â chyllido cyfalaf lle mae'r gyllideb llog a dderbyniwyd yn £212k yn uwch na'r targed oherwydd bod cyfraddau llog wedi parhau'n uchel ac roedd balansau arian parod yn uwch na'r disgwyl. Roedd gwariant cyfalaf yn is na'r disgwyl a chafodd ei gyllido o falansau arian parod mewnol ac ni chafwyd unrhyw fenthyciadau newydd yn ystod y flwyddyn. Roedd costau llog yn is oherwydd hyn a'r gwariant £963k yn llai na'r gyllideb.

**4.3** Roedd cost y cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor £216k yn is na'r gyllideb ond, oherwydd cynnydd mewn achosion yn ystod y chwarter olaf, mae'r tanwariant wedi gostwng o gymharu â thanwariant o £582k a ragwelwyd yn chwarter 3.

## 5 CASGLU'R DRETH GYNGOR

**5.1** Mae cyllideb y Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2023. Nid yw'n caniatáu ar gyfer ôl-ddyledion o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i rwymedigaethau yn codi o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddo eiddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol, na darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn pan osodir y gyllideb ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Yn hanesyddol, bydd yr incwm a ragwelir ar gyfer y Dreth Gyngor yn gostwng yn ystod y flwyddyn wrth i gamau adennill gael eu cymryd ac wrth i drethdalwyr hawlio eithriadau a disgowntiau sy'n ddyledus iddynt. Roedd incwm y Dreth Gyngor craidd £393k yn is na'r gyllideb.

**5.2** Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, fel y cyfryw, mae risg y gallai nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, gosodwyd sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sy'n talu'r premiwm ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn cynhyrchu gwarged. Mae'r newid yn y rheolau cymhwyso yn gysylltiedig â threthi busnes ar gyfer llety hunanarlwyo yn golygu bod nifer o eiddo wedi cael eu trosglwyddo'n ôl o'r gofrestr trethi busnes i'r gofrestr Dreth Gyngor, gan olygu fod mwy o eiddo yn gorfod talu'r premiwm ar ail gartrefi, ac mae hyn wedi gwrthbwyso'r gostyngiad yn nifer yr eiddo yn sgil codi'r premiwm o 75% i 100%.

**5.3** Gwelwyd symudiad sylweddol yn nifer yr eiddo hunanarlwyo sydd wedi cael eu symud i'r gofrestr Dreth Gyngor o ganlyniad i gyflwyno trothwy uwch er mwyn i eiddo fod yn gymwys i'w gynnwys ar y gofrestr trethi busnes ac, mewn nifer fawr o achosion, mae'r dyddiad cychwyn ar gyfer talu'r Dreth Gyngor yn cael ei ddyddio'n ôl i Ebrill 2023. Mae'n debygol y bydd nifer fawr o'r penderfyniadau hyn yn cael eu hapelio ac, os yw'r apêl yn llwyddiannus, bydd yr eiddo'n cael ei drosglwyddo'n ôl i'r gofrestr trethi busnes. Bydd gweithredwyr busnesau hunanarlwyo hefyd yn gwneud popeth posib i gyrraedd y trothwyon newydd, o ystyried y fantais ariannol fydd hynny'n ei roi i'w busnesau. Gallai hyn olygu fod eiddo'n cael eu hailasesu a'u dychwelyd i'r gofrestr trethi busnes. Oherwydd hyn, mae risg sylweddol y gallai'r Cyngor orfod ad-dalu symiau mawr o Dreth Gyngor yn 2025/26 ac, er mwyn lliniaru'r risg, trosglwyddwyd £900k o gyllid dros ben i gronfa wrth gefn clustnodedig er mwyn cyllido unrhyw ad-daliadau y bydd rhaid eu gwneud yn 2025/26. Ar ôl trosglwyddo cyllid i'r gronfa wrth gefn glustnodedig, roedd elfen premiwm y Dreth Gyngor £1.354m yn uwch na'r gyllideb.

**5.4** Oherwydd newid yn strwythur staffio'r tîm Dreth Gyngor, mae mwy o adnoddau'n cael eu cyfeirio tuag at ganfod achosion o osgoi talu trethi, e.e. hawlio eithriadau nad oes gan y trethdalwyr hawl iddynt, peidio â dweud wrth y Cyngor am newid mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar lefel y Dreth Gyngor sy'n ddyledus, perchnogion ail gartrefi ddim yn dweud wrth y Cyngor nad yw'r eiddo'n brif breswylfa iddynt. Mae'r gwaith hwn yn cael effaith ar lefel y Dreth Gyngor sylfaenol a godir, yn ogystal â'r premiwm ar dai gwag ac ail gartrefi.

## 6. ARBEDION CYLLIDEBOL 2024/25

**6.1** Roedd y gyllideb hefyd yn cynnwys pecyn o arbedion gwerth cyfanswm o £1.165m, a oedd yn cynnwys dileu cyllidebau nad oeddent yn cael eu defnyddio, cynhyrchu incwm ychwanegol, lleihau grantiau i gyrff allanol a chwtogi rhai gwasanaethau. Nid yw'r gwaith monitro cyllidebau wedi nodi unrhyw broblemau o ran cyflawni'r cynigion arbedion a gyflwynwyd.

## 7. COSTAU ASIANTAETH AC YMGYNGHORWYR

**7.1** Gwariwyd £1.208m ar staff Asiantaeth yn ystod y flwyddyn. Roeddent yn cael eu cyllido'n rhannol yn bennaf o gyllidebau staff oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, tra bod £640k yn ymwneud â gweithwyr cyflenwi ar gyfer swyddi gweigion. Mae'r Gwasanaeth Gwastraff wedi gwario £381k ar weithwyr safle mewn canolfannau ailgylchu. Mae manylion llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad D.

**7.2** Gwariwyd cyfanswm o £2.017m ar Ymgynghorwyr yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2024 a Medi 2025, a chyllidwyd £945k o'r gwariant hwnnw gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Mae Atodiad DD yn cynnwys crynodeb llawn o'r gwariant fesul gwasanaeth, ynghyd â manylion ychwanegol am y gwariant.

## 8. CASGLIADAU

**8.1** Yn wreiddiol, ar ddiwedd y trydydd chwarter roedd tanwariant o £59k yn cael ei ragweld ar gyfer y flwyddyn oedd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025. Er hynny, yr alldro heb ei archwilio ar 31 Mawrth 2025 yw tanwariant o £3.873m. Tra mae hyn yn newid sylweddol o'r rhagolwg, roedd yr incwm a dderbyniwyd o fewn y mwyafrif o wasanaethau yn ystod mis olaf y flwyddyn ariannol llawer iawn yn uwch na'r disgwyl. Yn ogystal, roedd incwm grant annisgwyl o gymorth i'r sefyllfa alldro. Crynhoir y pedwar ffactor allweddol isod :-

- Y cyntaf yw'r newid yn y rheolau cymhwyso ar gyfer trethi busnes ar lety hunanarlwyo, gan olygu bod nifer o eiddo wedi cael eu trosglwyddo'n ôl o drethi busnes i'r Dreth Gyngor. Er y rhagwelir y bydd angen ad-dalu rhywfaint o'r incwm ychwanegol a gynhyrchwyd, yn dilyn proses apelio, adroddir fod bron i £1m o incwm ychwanegol. Fodd bynnag, mae £900k wedi ei roi mewn cronfa wrth gefn clustnodedig fydd yn cael ei defnyddio i ad-dalu dreth gyngor os bydd angen ar ddiwedd y broses apelio.

- Oherwydd cynnydd yn y galw am ein gwasanaethau, mae'r incwm a gynhyrchwyd wedi cynyddu, ac mae Priffyrdd, Gwastraff a Hamdden oll wedi gweld cynnydd yn eu lefelau incwm yn ystod y chwarter olaf, ac mae hynny wedi cyfrannu £889k at y gwelliant yn y sefyllfa ariannol.
- Derbyniwyd cyllid grant sylweddol, ni ddyfarnwyd hyd nes y mis a'r wythnosau terfynol yn arwain at ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac fe'i defnyddiwyd i gyllido costau cyfredol, a chostau staffio yn arbennig, er bod darpariaeth ar eu cyfer yn y gyllideb graidd. Mae'r sefyllfa derfynol yn ystod y chwarter olaf £743k yn well oherwydd hyn.
- Disgynnodd y galw am wasanaethau yn ystod y chwarter olaf, yn enwedig yn y Gwasanaethau Oedolion a Digartrefedd. Nid yw hyn bob amser yn ymwneud â nifer y cleientiaid sy'n gofyn am wasanaeth ond mae enghreifftiau yn y Gwasanaethau Oedolion o leoliadau costus sydd wedi dod i ben yn ystod y chwarter olaf ac mae hynny'n golygu fod gwelliant o £646k yn y sefyllfa ariannol.

**8.2** Mae'r sefyllfa mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol yn creu pryder arbennig, gyda gorwariant ar alldro o £1.948m yn y Gwasanaethau Plant, er gwaethaf buddsoddiad sylweddol gan y Cyngor pan yn gosod y gyllideb. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi fod y gwasanaeth hwn yn cael ei arwain gan y galw, a gall y galw a lleoliadau newid yn sylweddol yn ystod y flwyddyn, e.e. gall un lleoliad ar gyfer cleient dibyniaeth uchel sydd ag anghenion gofal arbenigol gostio rhwng £250k a £500k. Bydd unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau'n gwaethygu'r sefyllfa.

**8.3** Mae'r sefyllfa alldro ar gyfer 2024/25 yn gadarnhaol, ac, felly, bydd o gymorth i'r broses gyllidebu ar gyfer 2026/27 gyda'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn uwch na'r disgwyl. Mae nifer o ddigwyddiadau unwaith ac am byth, megis derbyn cyllid grant ychwanegol, swyddi gwag ac incwm ychwanegol o'r Dreth Gyngor wedi cyfrannu, fodd bynnag, mae'r digwyddiadau hyn yn cuddio'r gwir sefyllfa, sef bod y gyllideb gyffredinol yn parhau i fod o dan bwysau oherwydd cynnydd yn y galw a chynnydd mewn costau, ac mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â gofal cymdeithasol.

**8.4** Diweddarwyd cyllideb 2025/26 er mwyn adlewyrchu'r pwysau parhaus ar y gyllideb, ac ychwanegwyd £2m o gyllid ychwanegol at gyllideb y Gwasanaethau Plant. Mae hyn, ynghyd â chynnydd ym malansau'r Cyngor a chronfeydd wrth gefn clustnodedig, yn golygu bod y Cyngor mewn safle ariannol cryf i ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau ariannol annisgwyl yn ystod 2025/26, a bydd hefyd yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd o ran sut mae'r Cyngor yn ymdrin â'r sefyllfa ariannol yn 2026/27, os yw'r cyllid y bydd yn ei dderbyn mor isel ag a ragwelir.

**ATODIAD B**

# ALLDRO REFENIW AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025
# REVENUE OUTTURN FOR THE FINANCIAL YEAR ENDING 31 MARCH 2025

| **Gwasanaeth/Swyddogaeth**<br>***Service/Function*** | **2024/25**<br>**Cyllideb Blynyddol**<br>**Annual Budget** | **2024/25**<br>**Alldro Dros Dro / Provisional Outturn** | **2024/25**<br>**Cyfanswm Dros Dro Amrywiaeth Alldro / Provisional Total Outturn Variance** | **2024/25**<br>**Gor / (Tan)wariant dros dro fel % o’r Gyllideb Gyfan / Provisional Over / (Under)spend as a % of Total Budget** | **2024/25**<br>**Amcangyfrif i Ch3 ar gyllidebau a reolir gan y gwasanaethau / Forecast to Qtr 3 on Service Controlled Budgets** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** |
| **Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc**<br>***Education, Skills and Young People*** | | | | | |
| Cyllideb Datganoledig Ysgolion<br>*Delegated Schools Budget* | 61,844 | 61,844 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg Canolog<br>*Central Education* | 5,504 | 5,313 | (191) | (3.47%) | (109) |
| Diwylliant<br>*Culture* | 1,570 | 1,484 | (86) | (5.48%) | 25 |
| | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion**<br>***Adult Services*** | 38,957 | 38,021 | (936) | (2.40%) | (126) |
| | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant**<br>***Children's Services*** | 14,428 | 16,376 | 1,948 | 13.5% | 2,101 |
| | | | | | |
| **Tai**<br>***Housing*** | 1,653 | 1,570 | (83) | (5.02%) | (55) |
| | | | | | |
| **Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff**<br>***Highways, Property & Waste*** | | | | | |
| Priffyrdd<br>*Highways* | 8,227 | 7,789 | (438) | (5.32%) | (58) |
| Eiddo<br>*Property* | 2,129 | 1,957 | (172) | (8.08%) | (35) |
| Gwastraff<br>*Waste* | 10,123 | 10,022 | (101) | (1.00%) | (65) |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth<br>*Service/Function* | 2024/25<br>Cyllideb Blynyddol<br>Annual Budget | 2024/25<br>Alldro Dros Dro / Provisional Outturn | 2024/25<br>Cyfanswm Dros Dro Amrywiaeth Alldro / Provisional Total Outturn Variance | 2024/25<br>Gor / (Tan)wariant dros dro fel % o’r Gyllideb Gyfan / Provisional Over / (Under)spend as a % of Total Budget | 2024/25<br>Amcangyfrif i Ch3 ar gyllidebau a reolir gan y gwasanaethau / Forecast to Qtr 3 on Service Controlled Budgets |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**<br>***Regulation & Economic Development*** | | | | | |
| Datblygu Economaidd<br>*Economic Development* | 3,149 | 2,596 | (553) | (17.56%) | (453) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd<br>*Planning and Public Protection* | 2,933 | 2,826 | (107) | (3.65%) | 43 |
| | | | | | |
| **Trawsnewid**<br>***Transformation*** | | | | | |
| Adnoddau Dynol<br>*Human Resources* | 1,911 | 1,766 | (145) | (7.59%) | (65) |
| TGCh<br>*ICT* | 4,708 | 3,807 | (901) | (19.14%) | (577) |
| Trawsnewid Corfforaethol<br>*Corporate Transformation* | 1,143 | 1,075 | (68) | (5.99%) | (25) |
| | | | | | |
| **Adnoddau**<br>***Resources*** | 4,045 | 4,073 | 28 | 0.69% | (8) |
| | | | | | |
| **Busnes y Cyngor**<br>***Council Business*** | 2,094 | 2,156 | 62 | 2.96% | 127 |
| | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd**<br>***Corporate & Democratic costs*** | 1,424 | 1,194 | (230) | (16.15%) | (79) |
| | | | | | |
| **Rheolaeth Corfforaethol**<br>***Corporate Management*** | 859 | 883 | 24 | (2.79%) | 20 |
| | | | | | |

| **Gwasanaeth/Swyddogaeth** ***Service/Function*** | **2024/25 Cyllideb Blynyddol Annual Budget** | **2024/25 Alldro Dros Dro / Provisional Outturn** | **2024/25 Cyfanswm Dros Dro Amrywiaeth Alldro / Provisional Total Outturn Variance** | **2024/25 Gor / (Tan)wariant dros dro fel % o'r Gyllideb Gyfan / Provisional Over / (Under)spend as a % of Total Budget** | **2024/25 Amcangyfrif i Ch3 ar gyllidebau a reolir gan y gwasanaethau / Forecast to Qtr 3 on Service Controlled Budgets** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaethau** **Total Service Budgets** | **166,701** | **164,752** | **(1,949)** | **(1.17%)** | **661** |
| | | | | | |
| Ardollau *Levies* | 4,931 | 4,931 | 0 | 0% | 0 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol *Discretionary Rate Relief* | 105 | 155 | 50 | 47.62% | 35 |
| Cyllido Cyfalaf *Capital Financing* | 5,753 | 4,591 | (1,162) | (20.20%) | (19) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill *General & Other Contingencies* | 82 | 0 | (82) | 100% | 174 |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor Council's General *Reserves* | (4,425) | (4,425) | 0 | 0% | 0 |
| Cyfraniad CRT y Gwasanaethau Cefnogol *Support Services contribution HRA* | (800) | (745) | 55 | (6.88%) | 0 |
| Budd-daliadau a Roddwyd *Benefits Granted* | 7,392 | 7,176 | (216) | (2.92%) | (582) |
| Costau heb gyllideb ac na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion / lwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau<br><br>*Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs / impairment allowances on services' income* | 0 | 392 | 392 | | 500 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** ***Total Corporate Finance*** | **13,038** | **12,075** | **(963)** | **(7.39%)** | **108** |
| **Cyfanswm 2024/25** ***Total 2024/25*** | **179,739** | **176,827** | **(2,912)** | **(1.62%)** | **769** |

| **Gwasanaeth/Swyddogaeth**<br>***Service/Function*** | **2024/25**<br>**Cyllideb Blynyddol**<br>**Annual Budget** | **2024/25**<br>**Alldro Dros Dro / Provisional Outturn** | **2024/25**<br>**Cyfanswm Dros Dro Amrywiaeth Alldro / Provisional Total Outturn Variance** | **2024/25**<br>**Gor / (Tan)wariant dros dro fel % o'r Gyllideb Gyfan / Provisional Over / (Under)spend as a % of Total Budget** | **2024/25**<br>**Amcangyfrif i Ch3 ar gyllidebau a reolir gan y gwasanaethau / Forecast to Qtr 3 on Service Controlled Budgets** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** |
| **Cyllido**<br>***Funding*** | | | | | |
| Trethi Annomestig<br>*NDR* | (25,341) | (25,341) | 0 | 0% | 0 |
| Y Dreth Gyngor<br>*Council Tax* | (48,387) | (47,994) | 393 | (0.81%) | (432) |
| Premiwm y Dreth Gyngor<br>*Council Tax Premium* | (3,766) | (5,120) | (1,354) | 35.97% | (396) |
| Grant Cynnal Refeniw<br>*Revenue Support Grant* | (102,245) | (102,245) | 0 | 0% | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2024/25**<br>***Total Funding 2024/25*** | **(179,739)** | **(180,700)** | **(961)** | **(0.53%)** | **(828)** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro, yn cynnwys effaith y cyllido**<br>***Total outturn, including impact of funding*** | **0** | **(3,873)** | **(3,873)** | **2.15%** | **(59)** |

**ATODIAD C**

## DADANSODDIAD O'R AMRYWIANT A RAGWELIR FESUL GWASANAETH A'R RHESWM

| Gwasanaeth | Is wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| **Addysg Ganolog** | Trafnidiaeth Ysgol | -265 | -187 | | 43 | | -27 | | | | -94 | |
| | Prydau Ysgol | 34 | | | 34 | | | | | | | |
| | Strategaeth ADY | 81 | | 81 | | | | | | | | |
| | Eithriadau i'r ysgol | -31 | | | | | | | | | | -31 |
| | Canolfan Iaith | 57 | | | | | | 57 | | | | |
| | Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar | 117 | | 19 | | 98 | | | | | | |
| | Clwb Gofal Plant | -175 | | -19 | | -124 | | -32 | | | | |
| | Addysg Bellach | 57 | | | | | 57 | | | | | |
| | Addysg Ganolog | -1 | | | | | | | | | | -1 |
| | Lleoliadau Allsirol | -63 | | -26 | | -49 | | | 6 | | | 6 |
| | Millbank | -38 | -38 | | | | | | | | | |
| | Arall | 17 | | | | | 11 | 6 | | | | |
| | Trafnidiaeth Ysgol | 19 | | | | | | | | | | 19 |
| | **CYFANSWM** | **-191** | **-225** | **55** | **77** | **-75** | **41** | **31** | **6** | **-** | **-94** | **-7** |
| **Diwylliant** | Amgueddfeydd ac Orielau | 11 | | -34 | | | 33 | 3 | | | | 9 |
| | Llyfrgelloedd | -103 | | -68 | | | -7 | -27 | | | | -1 |
| | Archifau | 6 | | 22 | | | -8 | | | | | -8 |
| | **CYFANSWM** | **-86** | **-** | **-80** | **-** | **-** | **18** | **-24** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | Henoed - Preswyl | -396 | 187 | | | | -699 | | | | | 116 |
| | Henoed – Nyrsio | 97 | 691 | | | | -494 | | | | | -100 |
| | Henoed – Gofal Cartref | 180 | 364 | | | -201 | 17 | | | | | |

| Gwasanaeth | Is wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| | Anabledd Corfforol - Preswyl | 1 | 28 | -27 | | | | | | | | |
| | Anabledd Corfforol - Nyrsio | 542 | 680 | | | | -138 | | | | | |
| | Anabledd Corfforol - Gofal Cartref | 0 | | | | | | | | | | |
| | Anabledd Corfforol - Arall | 130 | 130 | | | | | | | | | |
| | Anabledd Dysgu – Preswyl | -77 | 10 | -67 | | -20 | | | | | | |
| | Anabledd Dysgu - Gofal Cartref | -80 | -155 | | | | 75 | | | | | |
| | Anabledd Dysgu – Gofal Dydd | 0 | | | | | | | | | | |
| | Anabledd Dysgu – Llety â Chymorth | 44 | 44 | | | | | | | | | |
| | Anabledd Corfforol - Preswyl | -110 | -94 | | | | -16 | | | | | |
| | Anabledd Dysgu - Arall | 36 | 27 | 9 | | | | | | | | |
| | Iechyd Meddwl – Preswyl | -54 | -95 | | | | 41 | | | | | |
| | Iechyd Meddwl – Gofal Cartref | -27 | -27 | | | | | | | | | |
| | Iechyd Meddwl – Llety â Chymorth | 10 | 19 | | | | -9 | | | | | |
| | Iechyd Meddwl - Arall | -168 | -60 | -108 | | | | | | | | |
| | Uned Ddarparu – Preswyl | 45 | -152 | 258 | | | -61 | | | | | |

| Gwasanaeth | Is wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| | Uned Ddarparu - Gofal Cartref | -448 | -8 | -244 | | -20 | -176 | | | | | |
| | Uned Ddarparu Gofal Dydd | -142 | -30 | -133 | | | 21 | | | | | |
| | Uned Ddarparu – Llety â Chymorth | -192 | -26 | -174 | | | 8 | | | | | |
| | Uned Ddarparu - Arall | -186 | 29 | -125 | | -23 | 55 | | | -106 | | -16 |
| | Gwasanaethau Cymorth Rheolaeth | -141 | 50 | -75 | | -116 | | | | | | |
| | **CYFANSWM** | **-936** | **1,612** | **-686** | **-** | **-380** | **-1,376** | **-** | **-** | **-106** | **-** | **-** |
| **Gwasanaethau Plant** | Plant sy'n Derbyn Gofal – Lleoliadau Allsirol | 2,290 | 2,290 | | | | | | | | | |
| | Gofal Maeth | -23 | -23 | | | | | | | | | |
| | Cartrefi Clyd | 18 | 29 | 21 | | -32 | | | | | | |
| | Plant sy'n Derbyn Gofal Arall | 143 | 143 | | | | | | | | | |
| | Cymorth i Deuluoedd | -34 | -34 | | | | | | | | | |
| | Plant ag Anableddau | -44 | 74 | -101 | | -17 | | | | | | |
| | Comisiynu a Gwaith Cymdeithaso | -219 | 33 | -170 | | -82 | | | | | | |
| | Gwasanaethau Ieuenctid | -2 | -2 | | | | | | | | | |
| | Arall | -181 | -17 | -136 | | -28 | | | | | | |
| | **CYFANSWM** | **1,948** | **2,493** | **-386** | **-** | **-159** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |

| Gwasanaeth | Is wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| **Tai** | Gwasanaethau Tai | -70 | | -23 | | -95 | | | | | | 48 |
| | Digartrefedd | -3 | 49 | | | | | | | -49 | | -3 |
| | Canolfan J.E. O'Toole | -10 | | | | | | -8 | | | | -2 |
| | **CYFANSWM** | **-83** | **49** | **-23** | **-** | **-95** | **-** | **-8** | **-** | **-49** | **-** | **43** |
| **Priffyrdd** | Cefnogaeth a Rheolaeth Priffyrdd | -12 | | -12 | | | | | | | | |
| | Cludiant Cymunedol Môn | -52 | | -52 | | | | | | | | |
| | Meysydd Parcio a Rheolaeth Parcio | -138 | | | | | -138 | | | | | |
| | Rheoli Datblygu | -43 | | | | | -43 | | | | | |
| | Gwaith Stryd Preifat | -570 | | | | | -570 | | | | | |
| | Cyllideb Gweithfeydd | 433 | | | | | | | | | | 433 |
| | Cynnal a Chadw a Rheoli | 61 | | | | | | | | | | 61 |
| | Dylunio Cynnal a Chadw | -75 | | | | | -75 | | | | | |
| | Cludiant Cyhoeddus | -53 | | | | -43 | | | | | | -10 |
| | Fflyd | -45 | | | | | | | | | | -45 |
| | Arall | 56 | | -7 | | | | | | | | 63 |
| | **CYFANSWM** | **-438** | **-** | **-71** | **-** | **-43** | **-826** | **-** | **-** | **-** | **-** | **502** |
| **Eiddo** | Rheolaeth a Staffio | -56 | | -56 | | | | | | | | |
| | Glanhau | 42 | | 30 | | | | | | | | 12 |
| | Eiddo Masnachol | -3 | | | | | -112 | 103 | | | | 6 |
| | Eiddo'r Cyngor | -152 | | | -166 | | | | | | | 14 |
| | Dylunio Pensaernïol ac Ymgynghoriaeth | -3 | | | | | -82 | | | 82 | | -3 |
| | **CYFANSWM** | **-172** | **-** | **-26** | **-166** | **-** | **-194** | **103** | **-** | **82** | **-** | **29** |
| **Gwastraff** | Casglu a Gwaredu Gwastraff | 42 | | | 65 | | -42 | | | | | 19 |

| Gwasanaeth | Is wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| | Cynhyrchu Trydan | -76 | | | | | -76 | | | | | |
| | Ailgylchu | -40 | | | | | -40 | | | | | |
| | Safleoedd Gwastraff | 4 | | | | | | | | | | 4 |
| | Gweinyddu a Rheoli | -31 | | | | | -31 | | | | | |
| | Arall | 0 | | | | | | | | | | |
| | **CYFANSWM** | **-101** | **-** | **-** | **65** | **-** | **-189** | **-** | **-** | **-** | **-** | **23** |
| **Datblygu Economaidd** | Datblygu Economaidd | -58 | -8 | -19 | | | -19 | | | | | -12 |
| | Cyrchfan | -87 | | -132 | | -37 | 49 | 69 | | | | -36 |
| | Hamdden | -408 | | 44 | | | -187 | -354 | | | | 89 |
| | **CYFANSWM** | **-553** | **-8** | **-107** | **-** | **-37** | **-157** | **-285** | **-** | **-** | **-** | **41** |
| **Cynllunio** | Gweinyddu Cynllunio | -2 | | | | | | | | | | -2 |
| | Rheoli Cynllunio | -7 | | | | | -134 | | 45 | 81 | | 1 |
| | Rheoli Adeiladu | 50 | | | | | 50 | | | | | |
| | Polisi Cynllunio | 0 | | -14 | | | | | | 55 | | -41 |
| | Cadwraeth | -67 | | -67 | | | | | | | | |
| | Cofrestru Tir | -5 | | | | | | | | | | -5 |
| | **CYFANSWM** | **-31** | **-** | **-81** | **-** | **-** | **-84** | **-** | **45** | **136** | **-** | **-47** |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | Iechyd yr Amgylchedd | -15 | | -15 | | | | | | | | |
| | Rheoli Cŵn / Pla | -3 | | | | | | | | | | -3 |
| | Iechyd Anifeiliaid | -9 | | | | | -9 | | | | | |
| | Safonau Masnach | 18 | | | | | | | | | | 18 |
| | Trwyddedu | -4 | | -7 | | | 15 | | | | | -12 |
| | Cofrestrwyr | -45 | | | | | -45 | | | | | |
| | Marchnadoedd | 16 | | | | | | | | | | 16 |

| Gwasanaeth | Is wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £’000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £’000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £’000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £’000 | Newid i Gyllid Grant £’000 | Amrywiant Incwm £’000 | Costau Adeiladu £’000 | Ymgynghori £’000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £’000 | Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth £’000 | Amrywiol £’000 |
| | Iechyd a Diogelwch | -34 | | -34 | | | | | | | | |
| | **CYFANSWM** | **-76** | **-** | **-56** | **-** | **-** | **-39** | **-** | **-** | **-** | **-** | **19** |
| **Trawsnewid** | Adnoddau Dynol | -20 | | -14 | | | | | | | | -6 |
| | Hyfforddiant | -125 | | -7 | | -29 | | | | | | -89 |
| | TG | -901 | | -522 | | -48 | | | | -6 | | -325 |
| | Trawsnewid Corfforaethol | -20 | | -6 | | -1 | | | | | | -13 |
| | Cyswllt Môn | -33 | | -29 | | | | | | | | -4 |
| | Cyfathrebu | -4 | | | | | | | | | | -4 |
| | Partneriaeth Ynys Môn / Gwynedd | -11 | | | | | | | | | | -11 |
| | **CYFANSWM** | **-1,114** | **-** | **-578** | **-** | **-78** | **-** | **-** | **-** | **-6** | **-** | **-452** |
| **Adnoddau** | Archwilio a Risg | -87 | | -120 | | | | | 32 | | | 1 |
| | Budd-daliadau a Refeniw | 44 | | 66 | | -37 | -15 | | | | | 30 |
| | Gwasanaethau Ariannol | 110 | | 50 | | | -10 | | | | | 70 |
| | Caffael | -14 | | -36 | | | | | 22 | | | |
| | Rheoli | -25 | | -46 | | | -2 | | | | | 23 |
| | **CYFANSWM** | **28** | **-** | **-86** | **-** | **-37** | **-27** | **-** | **54** | **-** | **-** | **124** |
| **Busnes y Cyngor** | Gwasanaethau Etholiadol | -48 | | 3 | | -46 | -1 | | | | | -4 |
| | Cynllunio Argyfwng | -3 | | | | | | | | | | -3 |
| | Gwasanaethau Pwyllgor | -31 | | -28 | | | | | | | | -3 |
| | Cyfieithu | 3 | | 4 | | | | | | | | -1 |
| | Gwasanaethau Cyfreithiol | 141 | | 125 | | | 15 | | | | 4 | -3 |
| | **CYFANSWM** | **62** | **-** | **104** | **-** | **-46** | **14** | **-** | **-** | **-** | **4** | **-14** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Rheoli Corfforaethol** | Rheoli Corfforaethol | 24 | | 27 | | | | | | | | -3 |
| | | **24** | **-** | **27** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-3** |

| Gwasanaeth | Is wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Newid yn y galw am Wasanaeth** | **Amrywiant Staff / Asiantaethau** | **Newidiadau i Gontractau / Pris** | **Newid i Gyllid Grant** | **Amrywiant Incwm** | **Costau Adeiladu** | **Ymgynghori** | **Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn** | **Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth** | **Amrywiol** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | **CYFANSWM** | | | | | | | | | | | |
| **Corfforaethol a Democrataidd** | Risg ac Yswiriant | 2 | | | | | | | | | | 2 |
| | Cyfraniadau Pensiwn | -13 | | -13 | | | | | | | | |
| | Ffioedd Archwilio | -91 | | | 20 | | | | | | | -111 |
| | Crwner | -55 | -52 | | | | | | | | | -3 |
| | Ardoll Prentisiaeth | 6 | | 6 | | | | | | | | |
| | Treuliau a Chymorth Aelodau | -33 | | | | -1 | | | | | | -32 |
| | Gwariant Dinesig | 0 | | | | | | | | | | |
| | Corfforaethol Arall | -46 | | | | | | | | | -48 | 2 |
| | **CYFANSWM** | **-230** | **-52** | **-7** | **20** | **-1** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-48** | **-142** |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **CYFANSWM GWASANAETH** | **-1,949** | **3,869** | **-2,001** | **-4** | **-951** | **-2,819** | **-183** | **105** | **57** | **-138** | **116** |

**ATODIAD CH**

**SEFYLLFA ALLDRO AR GYLLIDEBAU WRTH GEFN**

| | **Cyllideb**<br><br>**£** | **Trosglwyddiadau i Wasanaethau**<br><br>**£** | **Gwirioneddol**<br><br>**£** | **Trosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn clustnodedig**<br><br>**£** | **Sefyllfa Alldro**<br><br>**£** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | 382,282 | (89,214) | - | (186,127) | (106,941) |
| Cyflog a Graddfeydd | 300,000 | (271,939) | - | - | (28,061) |
| Arall Clustnodedig | 150,000 | | - | (150,000) | - |
| Arall Clustnodedig - Oedolion Heb Sylfaen | - | 494,000 | - | - | (494,000) |
| Arall Clustnodedig - Arbedion Corfforaethol | - | (546,510) | - | - | 546,510 |
| Chwyddiant Cyflog | 49,209 | (49,209) | - | - | - |
| Twf Rhanbarthol – Bwrdd Uchelgais Economaidd | 86,250 | (57,880) | - | (28,370) | - |
| Cynllun Hyfforddeion | 340,000 | (190,724) | - | (149,276) | - |
| Newid Hinsawdd | 50,000 | (11,355) | - | (38,645) | - |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | **1,357,741** | **(722,831)** | **-** | **(552,418)** | **(82,492)** |

## COSTAU STAFF ASIANTAETH EBRILL 2024 I MAWRTH 2025

| Gwasanaeth | Swm<br>£ | Fynhonell y Cyllid<br>(Cyllideb Craidd Penodol / Cyllideb Staffio Heb ei Ddefnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol) | Parhaol /<br>Dros Dro | Rheswm |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu Economaidd | 79,253 | Cyllideb Staffio heb ei ddefnyddio | Dros Dro | Proses recriwtio aflwyddiannus |
| | **79,253** | | | |
| Ysgolion | 127,578 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Athrawon cyflenwi mewn maes arbenigol |
| | **127,578** | | | |
| Gwastraff | 296,770 | Cyllideb Craidd  Penodol | Dros Dro | Tasgau Penodol ar y Safle |
| | 83,883 | Cyllideb Craidd  Penodol  - Cyfraniadau Allanol | Dros Dro | Tasgau Penodol ar y Safle |
| | **380,653** | | | |
| Eiddo | 4,464 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Absenoldeb Mamolaeth |
| | **4,646** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 66,586 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Llenwi swyddi gwag |
| | **66,586** | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 492,739 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Llenwi swyddi gwag |
| | **492,739** | | | |
| Trawsnewid | 5,400 | Grant | Dros Dro | Hyfforddi Staff |
| | **5,400** | | | |
| Adnoddau | 45,666 | Cyllideb Staffio heb ei ddefnyddio | Dros Dro | Gwaith Cymhorthdal |
| | 1,800 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Llenwi swyddi gwag |
| | 1,110 | Cyllideb Staffio heb ei ddefnyddio | Dros Dro | Cyfrol waith |
| | **48,576** | | | |
| **Cyfanswm** | **1,208,822** | | | |

**ATODIAD DD**

## CRYNODEB O WARIANT AR YMGYNGHORWYR AR ALLDRO 2024/25

| Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr fesul Gwasanaeth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Chwarter 1<br>£** | **Chwarter 2<br>£** | **Chwarter 3<br>£** | **Chwarter 4<br>£** | **Cyfanswm 2024/25<br>£** |
| Addysg Ganolog | 7,097 | 6,684 | 5,198 | 6,564 | 25,543 |
| Diwylliant | 13,611 | 11,000 | | 128 | 24,739 |
| Economaidd ac Adfywio | 119,484 | 213,469 | 164,785 | 496,635 | 994,373 |
| Eiddo | | | | | 0 |
| Priffyrdd | 53,753 | 18,597 | 29,839 | 161,703 | 263,892 |
| Ysgolion | | 473 | | | 473 |
| Gwastraff | 19,092 | 13,868 | 59,445 | 21,343 | 113,748 |
| CRT | | 3,490 | 16,276 | 50,625 | 70,391 |
| Tai | | | 400 | | 400 |
| Corfforaethol a Democrataidd | | | | | 0 |
| Gwasanaethau Oedolion | | | | | 0 |
| Gwasanaethau Plant | 3,209 | 21,378 | 38,340 | 14,826 | 77,753 |
| Corfforaethol | | | | | 0 |
| Trawsnewid | 3,713 | 2,919 | 4,088 | 600 | 11,320 |
| Busnes y Cyngor | 18,168 | 63,100 | 80,423 | 121,813 | 283,504 |
| Adnoddau | 9,970 | 51,844 | 7,625 | 81,287 | 150,726 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | **248,097** | **406,822** | **406,419** | **955,524** | **2,016,862** |
| Cyllidwyd gan: | | | | | |
| Cyllideb Graidd | 72,552 | 210,618 | 130,472 | 476,420 | 890,062 |
| Grant | 129,111 | 135,036 | 199,809 | 375,440 | 839,396 |
| Cyfraniad Allanol | 29,411 | 5,816 | 18,567 | 51,872 | 105,666 |
| Cronfeydd Wrth Gefn / Darpariaethau | 17,023 | 55,352 | 57,571 | 51,792 | 181,738 |
| **Cyfanswm** | **248,097** | **406,822** | **406,419** | **955,524** | **2,016,862** |

This page is intentionally left blank